cwmpas

# Cwmpas x Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Astudiaeth Achos

Prosiect masnachol gan Dwf Busnes ac Ymgynghoriaeth.

→

**Yn ddiweddar buom yn gweithio ochr yn ochr â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar fenter arloesol sy'n un o'r rhai cyntaf o'i bath yng Nghymru.**

Cwmpas believes the purpose of evaluation is to bring out the best in any project, which is demonstrated in this case study.



**Jenny Phillips**

Ymgynghorydd: Twf Busnes a Chyflawni, Cwmpas

Mae Jenny yn arbenigo mewn gwerthuso prosiectau o fewn Cwmpas, mae ganddi 20 mlynedd o brofiad cyfunol mewn rheoli prosiectau yn y sector gwirfoddol, prosesu, dadansoddi a delweddu data gyda Phrifysgol Abertawe a darparu cymorth cynhwysiant digidol ledled Cymru.

**Gwasanaethau Gwerthuso gan Cwmpas**

## Mae ein tîm yn cynnal gwerthusiad ôl-gyllid/grant ac yn darparu dadansoddiad o’r allbynnau a’r canlyniadau yn erbyn yr amcanion.

Our aim is to uncover the value delivered by a funding and demonstrate the impact and findings, with:

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Arweiniad a chyngor ar brosiectau
- Cydweithio â phartneriaid prosiectau
- Profi, dysgu a rheoli newid
- Sesiynau gweithdy
- Casglu a dadansoddi data
- Dadansoddi canlyniadau a dysgu allweddol
- Adroddiad Terfynol gydag argymhellion



## Ein gwaith gydag Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae gan fentrau fel hyn y potensial i drawsnewid canol trefi ledled y DU sydd wedi profi effaith niweidiol pandemig COVID a’r ffocws cynyddol ar siopa ar-lein..

Daeth y prosiect i'r fei ar ôl i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gael cyllid gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU. Roedd y prosiect ar waith o fis Chwefror 2022 tan ddiwedd mis Rhagfyr 2022, ac yn cynnwys y Bwrdd Cynghori ar Brosiectau sy'n cynnwys gwahanol adrannau yr Awdurdod Lleol, Coleg Penybont, sefydliadau'r Trydydd Sector lleol, a rhanddeiliaid eraill, megis y Tîm Menter a Chyflogadwyedd a'r Urban Foundry.

Fe wnaeth Cwmpas gefnogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i werthuso'r fenter drwyddi draw a monitro'r canlyniadau.

Dywedodd Vicky Jones, Cydlynydd Menter Leol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

“Roedd yn gynllun mor fuddiol a chydweithredol i'r gymuned, wedi’i hwyluso gan y Bwrdd Cynghori Prosiect, a oedd yn caniatáu i randdeiliaid allweddol gymryd rhan o'r cychwyn cyntaf.”

TRoedd y prosiect ei hun yn ymwneud yn bennaf â datblygu mentrau dros dro i greu cyfleoedd ar gyfer busnesau newydd a thwf microfusnesau, annog mwy o ymwelwyr, a galluogi mwy o gadernid gyda dull 'cyflymach, ysgafnach, rhatach'.

Amcan y prosiect hefyd oedd datblygu proses arloesol a fyddai’n galluogi pobl fusnes leol i brofi syniadau posibl yn ymarferol heb fawr o gost a risg trwy ddefnyddio gofodau siopa a marchnadoedd gwag.

Jenny Phillips, Prif Ymgynghorydd, Cwmpas:

“Dywedodd Rheolwr Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr fod y prosiect yn creu, "newid seismig yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr". I ni, roedd yn ymddangos bod gwahaniaeth enfawr yng Nghanolfan Siopa'r Rhiw a'r Farchnad ar ôl i'r prosiect gyrraedd, gyda llai o leoedd gwag a mwy o ymwelwyr yn yr ardal.”


Photo credit: Mick Lobb

## Y broses a’r cymorth a gafwyd gan Cwmpas

Darparodd ein tîm ystod o wasanaethau hanfodol, a oedd yn cynnwys mynychu cyfarfodydd diweddaru rheolaidd a chysylltu â grŵp cyflawni’r prosiect a'r Grŵp Cynghori Prosiect ehangach, gan gynnig cyngor ac arweiniad i wella'r fenter, casglu data a thystiolaeth a nodi ffyrdd o dynnu sylw at gyflawniadau niferus y prosiect.

Fel gwerthuswyr allanol, roedd ein cyfranogiad yn golygu gweithio ar y cyd â phartneriaid eraill y prosiect i adrodd ar gyflawniad ac effaith y prosiect, profi'r dull gweithredu, ei fireinio wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, ac yna cwblhau adolygiad terfynol a fyddai’n sail ar gyfer rowndiau cyllido posibl yn y dyfodol yn 2023 a thu hwnt.

Roedd rhan o'n cyfranogiad hefyd yn golygu cynnal dadansoddiad manwl o'r data a gasglwyd o gamerâu cyfrif pobl yng nghanol y ddinas, gan fod cynyddu nifer yr ymwelwyr yn un o fesurau perfformiad allweddol y prosiect.

## Y broses a'r cymorth a gafwyd gan Cwmpas parhau

·Fe wnaethom ni hefyd hwyluso gweithdy hanner diwrnod cynhyrchiol iawn o'r enw "Learning to Action" a ddaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol at ei gilydd. Yn ystod y gweithdy hwn, anogwyd trafodaethau craff am y prosiect, archwiliwyd llwyddiannau a heriau, a nodwyd yr elfennau allweddol a ddysgwyd ac a fu'n fuddiol yn y gweithdy a fyddai'n llywio ymdrechion yn y dyfodol. ·Er mwyn bodloni gofyniad Llywodraeth y DU i ddangos gwerth am arian, defnyddiodd ein tîm fethodolegau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF i gynnal Dadansoddiad Cost a Buddcadarn o allbynnau'r prosiect. ·Yn olaf, darparwyd adroddiad cynhwysfawr i Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU, sy'n cyd-fynd yn llawn â meini prawf Cronfa Adnewyddu Cymunedol Llywodraeth y DU. Amlinellodd yr adroddiad hwn gyflawniadau, allbynnau a chanlyniadau niferus y prosiect, yn ogystal â heriau allweddol, mesurau gwerth am arian, ac argymhellion gwerthfawr ar gyfer y dyfodol.

·

The project exceeded its target of building or renovating 10 square metres of buildings by completing work on 268.77 square metres

Mae'r dystiolaeth o ddangosyddion effaith y prosiect yn dangos bod prosiect Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU yn targedu busnesau bach a sefydliadau'r sector gwirfoddol.

**Roedd y gwerthusiad yn un ffurfiannol, gan ddarparu cyngor a chymorth ac archwilio a chasglu tystiolaeth gydol oes y prosiect**

Llwyddodd y prosiect i gyflawni ei ganlyniadau mewn sawl metrics, gan gynnwys rhagori ar y targed o gyflwyno cynnyrch newydd i ddau fusnes trwy gefnogi a diogelu saith swydd allan o'r wyth a dargedwyd, creu pum busnes newydd, a chynyddu nifer yr ymwelwyr o 20% o'i gymharu â'r targed o 5%. Hefyd, rhagorodd y prosiect ar ei darged o adeiladu neu adnewyddu 10 metr sgwâr o adeiladau trwy gwblhau gwaith ar 268.77 metr sgwâr.

Roedd y gwerthusiad yn un ffurfiannol, gan ddarparu cyngor a chymorth ac archwilio a chasglu tystiolaeth gydol oes y prosiect.

Ein dealltwriaeth ni yw y bydd llwyddiant y prosiect (a ddangoswyd yn y gwerthusiad) yn arwain at fuddsoddiad a chyllid pellach ar gyfer prosiect tymor hwy o'r math hwn i adeiladu ar y llwyddiannau a gyflawnwyd eisoes. Un o ddangosyddion perfformiad allweddol y prosiect oedd cynyddu nifer yr ymwelwyr, a datgelodd ein dadansoddiad dystiolaeth gref bod gweithgaredd y prosiect wedi arwain at gynnydd o 20%.

Ychwanegodd Jenny Phillips:

"Roedd gwerthuso'r prosiect yn brofiad cadarnhaol iawn, a gwelsom ganlyniadau clir a pharhaol."

Yn ystod y broses werthuso, cynhaliodd ein tîm werthusiad ar y safle, a oedd yn cynnwys cyfweld masnachwyr siop Rhiw a ddywedodd wrthym fod y gofod dros dro yn cael effaith gadarnhaol ar nifer yr ymwelwyr a bod hynny'n annog amrywiaeth yng Nghanolfan Siopa Rhiw.

Aeth Vicky Jones yn ei blaen, gan ddweud:

"Rydyn ni wedi cael adborth cadarnhaol iawn gan y busnesau sy'n rhan o'r prosiect hwn...a oedd yn caniatáu i randdeiliaid allweddol gymryd rhan o'r cychwyn cyntaf."

Rhoddodd y prosiect gymorth uniongyrchol i **21 o grwpiau** a grant ariannol o **£16,831.81**.

## Canlyniad

Hefyd, yn ôl y Swyddog Entrepreneuriaeth yng Ngholeg Pen-y-bont, a sicrhaodd le yng Nghanolfan Siopa Rhiw drwy'r prosiect, mae'r lleoliad dros dro yn gyfle unigryw i'r Coleg feithrin ymgysylltiad agosach â'r gymuned leol.

O'u safbwynt nhw, mae'r fenter yn cynnig cyfle amhrisiadwy i ddysgwyr ennill profiad ymarferol o fasnachu yn y byd go iawn. Amlygwyd potensial y lleoliad dros dro i ddenu pobl ifanc i'r Rhiw a'i allu i greu bwrlwm amlwg yn yr ardal hefyd fel manteision sylweddol.

Daeth Jenny Phillps i ben drwy ddweud:

"Rhoddodd y gwerthusiad dystiolaeth gadarn bod y prosiect yn sicrhau gwerth am arian a dangoswyd ei fod yn fuddsoddiad gwerth chweil o arian cyhoeddus."

cwmpas

**Darganfyddwch fwy:**

Ffôn: 0300 111 5050
E-bost: info@cwmpas.coop
Gwefan: cwmpas.coop

Chwiliwch am **Cwmpas**
ar y cyfryngau cymdeithasol